Un Llais Cymru

One Voice Wales

# Cyngor Tref Cwmaman
## Astudiaeth Enghreifftiol Gwener y Gymuned

## Cip cyflym

**Sylweddolodd Cyngor Tref Cwmaman fod pobl sy'n byw mewn cymuned wledig yn wynebu heriau wrth geisio cael gafael ar wasanaethau. Pwrpas eu Gwener y Gymuned yw cynnig cefnogaeth mawr ei hangen trwy ddod â'r mudiadau hynny at ei gilydd. Cafodd y fenter, sy'n galluogi nifer o fudiadau lleol, asiantaethau cymorth rhanbarthol a mudiadau trydydd sector i gyd-drafod, ei lansio gyda diwrnod agored yng Nghanolfan Gymunedol Cwmaman ar Chwefror 23ain 2024.**

### Mae'r partneriaid yn cynnwys

- **Pantri Cymunedol Cwmaman: Mae'n darparu bwyd da am gost isel i aelodau'r gymuned.**
- **Hwb ETO Cwm Amgylcheddol: Mae'n darparu celfi & nwyddau trydanol ail law wedi'u hadnewyddu am brisiau fforddiadwy**
- **Hwb Bach y Gwlad: Mae'n cynnig cymorth gyda budd-dâl tai & budd-daliadau eraill.**
- **Mudiadau Trydydd Sector: Mae mudiadau trydydd sector gwahanol yn dod draw i gynnig cyngor & gwybodaeth arbenigol ar y cymorth maen nhw'n ei gynnig.**

**"Rydych yn darparu gwasanaeth hanfodol ac mae'n rhywbeth y mae mawr ei angen yn yr ardal hon."**

## Heriau

Sylweddolodd Cyngor Tref Cwmaman nad oedd llawer o'u trigolion yn gwybod am y gwahanol fathau o wasanaethau cymorth oedd ar gael iddynt. Daethant ar draws pobl hefyd oedd yn aml yn methu cael gafael ar y cymorth hwn oherwydd rhwystrau fel cost teithio neu unigedd cymdeithasol.

## Atebion

Er mwyn ceisio goresgyn y problemau hyn i'w cymuned cafodd cysyniad Gwener y Gymuned ei greu gyda'r bwriad o ddod â mudiadau gwahanol at ei gilydd o dan yr un to i gynnig gwasanaethau hanfodol i bobl leol yn eu cymuned eu hunain.

**"Rwyf yn falch o gynnig ein hymrwymiad i helpu ein cymuned trwy lansio Gwener y Gymuned. Yn y cyfnodau anodd hyn, mae'n hollbwysig ein bod yn darparu cefnogaeth ac adnoddau hanfodol i'n trigolion. Mae'r fenter hon yn adlewyrchu ein penderfyniad i helpu pobl mewn angen a meithrin cymuned gryfach a mwy cydnerth." Cyng David Jenkins**

## Beth sydd ar gael?

**Cyngor a chefnogaeth** | **Caffi Cymunedol** | **Gwirfoddoli** | **Siop ail-ddefnyddio**

1. Mae hyd at 50 o bobl yn dod i **Gwener y Gymuned** i gymryd rhan mewn prosiectau cymunedol; cyngor a chymorth gan fudiadau amrywiol. Mae'r fenter hon yn crynhoi gwasanaethau hollbwysig o dan un to, a chynnig hwb cefnogi un-alwad.

2. Mae'r **Caffi Cymunedol** yn chwarae rôl hollbwysig yn meithrin cysylltiadau cymunedol a chryfhau bywyd cymunedol yng Nghanolfan Gymunedol Cwmaman. Mae Clwb Bola Bach yn glwb bwyd i blant sy'n cael ei gynnig yn y caffi ac sy'n darparu bwydydd maethlon am gost isel i deuluoedd.

3. Mae'r prosiect yn croesawu gwirfoddolwyr o Gofal Aman, sy'n ceisio integreiddio yn y gymuned, a myfyrwyr o'r ysgol Gyfun leol sy'n gweithio ar eu cynllunydd amser ALN neu'n cronni oriau **gwirfoddoli** ar gyfer eu gwobrau Dug Caeredin.

4. Siop ail-ddefnyddio a ddarperir gan **Eto** lle y gall pobl brynu nwyddau wedi'u hadnewyddu am gost isel ar gyfer eu cartrefi gan gynnwys nwyddau trydan, celfi, cyfrifiaduron, paent a beiciau.

## Pantri Cymunedol




Mae'r **Pantri Cymunedol**, yng Nghanolfan Gymunedol Cwmaman, yn chwarae rôl allweddol yn cefnogi pobl leol trwy ddarparu bwyd da am gost isel a pharseli bwyd mewn argyfwng i'r sawl sydd eu hangen. Pwrpas y gwasanaeth hwn yw lliniaru ansicrwydd bwyd a gofalu fod pawb yn y gymuned yn gallu cael gafael ar fwyd maethlon. Mae'r pantri yn cael ei integreiddio gyda Gwener y Gymuned, gan gryfhau'r rhwydwaith cefnogaeth sydd ar gael i bobl leolhe.

## Cwmaman yn dathlu Wythnos Genedlaethol Gwirfoddolwyr

Cefnogwyd digwyddiad llwyddiannus iawn gan fwy nac 20 o fudiadau gwirfoddol oedd yn hyrwyddo eu prosiectau a chyfleoedd gwirfoddoli a gweithdai Lluosogi, celf, crefft a llesiant. Daeth tua 120 o bobl i'r digwyddiad. Amlygodd rôl hollbwysig gwirfoddolwyr ac fe gysylltodd y gymuned gyda chyfleoedd da i gymryd rhan.




"mae hyn yn rhoi cyfle inni ddod allan a dangos pa wasanaethau sydd ar gael"
**Rhian Jones**
**Age Cymru Dyfed**




### Cyllid & Grymoedd Cyfreithiol Penodol

Nid yw darparu Gwener y Gymuned yn golygu fawr ddim cost i'r Cyngor y tu hwnt i gostau arferol staff ac adeiladau. Mae'r costau ychwanegol yn deillio o ddarparu adnoddau a bwyd ar gyfer digwyddiad cymunedol mwy.

Mae pob cyngor cymuned yng Nghymru yn gorfod cael grymoedd cyfreithiol penodol sy'n eu galluogi i ddarparu gwasanaethau a chefnogaeth amrywiol i'w cymunedau lleol. Mae'r grymoedd hyn, a roddir iddynt trwy ddeddfwriaeth, yn galluogi cynghorau i drefnu gweithgareddau a mentrau o bob math i wella llesiant ac ansawdd bywyd pobl leol. Gall grymoedd a chyfiawnhadau amrywio, a dylai cynghorau ystyried eu hamgylchiadau penodol nhw.

Er mwyn cael cyngor ac arweiniad, efallai yr hoffai cynghorau gysylltu â'u Swyddog Datblygu Un Llais Cymru: admin@onevoicewales.wales

### Y Dyfodol

Bwriedir cynnal digwyddiad cadw'n dwym, cadw'n iach, cadw cysylltiad **Llesiant y Gaeaf**: trefnir hyn ar y cyd â **Cyswllt Sir Gâr** a bydd yn mynd i'r afael â materion sy'n poeni unigolion a theuluoedd trwy fisoedd y gaeaf.

Bydd **Cyngor Tref Cwmaman** yn cydweithio gydag **Age Cymru,** fydd yn cynnal prosiect digidol i gefnogi gofalwyr am dâl a di-dâl, gan helpu sector hollbwysig o'r gymuned trwy hyrwyddo cynhwysiant digidol.

Cydweithrediad gyda'r **Gymdeithas Alzheimer** i redeg eu cwrs, 'Byw'n Dda Gyda Dementia'.

### Eisiau Gwybod Mwy?

**Er mwyn cael gwybod mwy am brosiect Argyfwng Costau Byw Un Llais Cymru cysylltwch â'r tîm yn:**

CoLC@onevoicewales.wales

https://bit.ly/3KYHftK